

# Rhannu eich Cofnodion Meddyg Teulu gyda gweithwyr iechyd proffesiynol



Mae eich meddygfa deulu yn rhan o grŵp o feddygfeydd yn yr ardal leol sy'n cydweithio er mwyn diwallu eich anghenion yn y ffordd orau posibl. Gelwir y grŵp hwn yn 'Glwstwr'.

Mae'r feddygfa eisiau eich cynorthwyo chi i dderbyn ystod ehangach o wasanaethau mewn cyfnod amser byrrach. Ein nod yw darparu gwasanaeth gynhwysfawr sy'n cwrdd ag anghenion ein cleifion yn fwy effeithiol.

Mae hynny'n golygu efallai bydd staff ein dderbynfa'n cynnig apwyntiad i chi gyda meddyg teulu, nyrs neu weithiwr iechyd proffesiynol arall, er enghraifft ffisiotherapydd, yn eich meddygfa, mewn meddygfa gyfagos neu yn y gymuned.

Mae'n bosibl i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael eu cefnogi gan y feddygfa neu'r Bwrdd Iechyd Lleol gael mynediad i gofnodion meddygol, gan gynnwys diagnosis a meddyginiaeth gyfredol, er mwyn sicrhau diogelwch a chysondeb o ran gofal yn ystod triniaeth neu ymgynghoriadau.

Os hoffech fwy o wybodaeth, gofynnwch am gopi o daflen 'Clwstwr Gofal Sylfaenol: Mynediad i'ch Manylion Meddygol' neu siaradwch gyda staff y dderbynfa.